

# Negeseuon allweddol o waith ymchwil: Yr Heddlu

Nicola Sharp-Jeffs, Maddy Coy a Liz Kelly

Ionawr 2017

Papur briffio i swyddogion yr heddlu yw hwn. Mae'n dod â negeseuon allweddol ynghyd o waith ymchwil ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant ac yn nodi'r goblygiadau o safbwynt ymarfer. Dylid ei ddarllen ar y cyd â chanllawiau i weithwyr proffesiynol ar fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant [[Dolenni at y canllawiau Cymraeg](#) a'r [canllawiau Saesneg](#)].

## Negeseuon allweddol

- Mae camfanteisio'n gallu digwydd i bobl ifanc o bob cefndir. Er mai merched ifanc yw'r mwyafrif o'r dioddefwyr, mae camfanteisio'n gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd.
- Ychydig iawn o bobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol sy'n mynd yn uniongyrchol at yr heddlu.
- Mae angen cael ffordd ragweithiol a deallus o adnabod dioddefwyr a drwgweithredwyr.
- Mae angen i berthnasoedd â phobl ifanc gael eu hadeiladu ar sylfaen o ofal a pharch, a chydabyddiaeth o effeithiau camdriniaeth.
- Mae angen i bobl ifanc gael cymorth dwys. Yn ogystal â gwella'r canlyniadau iddyn nhw, bydd hefyd yn gwella'r canlyniadau ar gyfer cyfiawnder troseddol. Dylai'r heddlu wneud yn siŵr bod ganddynt gysylltiadau agos ag asiantaethau sy'n gallu cynnig hyn.
- Gellir defnyddio mesurau sifil a throseddol i darfu ar ddrwgweithredwyr.
- Gall codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion a phrosiectau ieuencid helpu'r heddlu i feithrin perthynas gadarnhaol â phobl ifanc, gan roi mwy o hyder iddynt roi gwybod am

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol lle ceir elfen o gyfnawid a budd i'r drwgweithredwyr. Does dim un ffordd benodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein, 2011; Berelowitz et al, 2012; Gohir, 2013). Mae meithrin perthynas amhriodol yn gyffredin mewn ambell ffurf ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys ar-lein, ond nid yw hyn yn digwydd bob tro (Beckett, 2011; Melrose, 2013). Mae camfanteisio (drwy gyswllt) ar-lein a heb fod ar-lein yn gallu gorgyffwrdd (Fox a Kalkan, 2016). Os yw plant a phobl ifanc yn ymddangos fel pe baent yn cydweithredu, ni ddylid cymryd eu bod yn cydsynio: yn gyfreithiol, maen nhw dan oed ac yn gallu cael eu rheoli a'u cymell mewn sawl ffordd. Mae'r ffyrdd hyn o gamddefnyddio pŵer yn debyg i'r rhai a welir mewn achosion o drais domestig.

Er bod holl dystiolaeth yr ymchwil hyd yma yn dangos mai genethod a merched ifanc yw'r mwyafrif o'r dioddefwyr, mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd. Yr oedran cyfartalog pan ddaw pryderon i'r amlwg am y tro cyntaf yw 12-15 oed, ond mae astudiaethau diweddar yn dangos bod mwy a mwy o blant rhwng 8 ac 11 oed yn cael eu cyfeirio, yn enwedig mewn achosion o gamfanteisio ar-lein. Nid oes cymaint o wybodaeth ar gael am gamfanteisio ar blant a phobl ifanc o gymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), a phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) (Ward a Patel, 2006; Gohir, 2013; Coy, 2016; Sharp, 2015; Fox, 2016). Mae'n bwysig cofio nad oes dioddefwr 'nodweddiadol'.

Wedi dweud hynny, mae rhai pobl yn fwy agored i gamfanteisio nag eraill, ac mae amryw o ffactorau wedi'u nodi y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys: cam-drin blaenorol yn y teulu; amddifadedd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau;

anabledd; bod mewn gofal; rhedeg i ffwrdd/mynd ar goll a chysylltiadau â gangiau (Brown et al.2016; Coy, 2009; Franklin, Raws a Smeaton, 2015; Harris a Robinson, 2007; Klatt et al. 2014; Jago et al. 2011; Smeaton, 2013). Nid ydym yn gwybod a yw'r rhain hefyd yn berthnasol i bobl ifanc lle mae'r broses o gamfanteisio arnynt yn cychwyn neu'n digwydd yn llwyr ar-lein, er bod ambell ffactor i'w weld yn codi yn y ddau gyd-destun (Whittle et al, 2013).

Nid yw'r rhain, na rhestri o ddangosyddion, yn dystiolaeth bod camfanteisio rhywiol wedi digwydd. Yr unig beth maent yn ei wneud yw dweud wrthyich chi bod angen i chi ddefnyddio'ch barn a'ch chwilfrydedd proffesiynol i weld beth yw sefyllfa pob person ifanc. Y cam cyntaf yw rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Y cam nesaf yw cael sgwrs sensitif ond holgar â phobl ifanc.

## Rhwystrau rhag dod ymlaen

Anaml iawn y bydd pobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol yn mynd at yr heddlu'n uniongyrchol, oni bai eu bod mewn perygl dybryd. Yn hytrach na hynny, mae'n bosib y bydd swyddogion yr heddlu (gan gynnwys ymatebwyr cyntaf) yn dod i gysylltiad â phobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio gan eu bod wedi: rhedeg i ffwrdd neu fynd ar goll; bod yn rhan o ymddygiad troseddol, fel camddefnyddio sylweddau, gweithgarwch troseddol, cyswllt â gangiau, ymddygiad gwrthgymdeithasol; tynnu pobl ifanc eraill i sefyllfaoedd o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (Bartlett, 2016; Berelowitz, et al. 2013).

Gall cymryd amser i ofyn cwestiynau treiddgar fynd o dan groen y sefyllfa neu'r drosedd sydd dan sylw, a dangos o bosib bod y person ifanc hefyd yn ddioddefwr (Beckett, 2011; Ghani, 2016).

Gall yr heddlu hefyd gael gwybod am gamdriniaeth gan oedolyn ar ôl i berson ifanc ddweud wrtho am hynny. Gallai trydydd parti godi pryderon hefyd, gan gynnwys rhieni neu oedolion gyda dyletswydd gofal (Allnock, 2015; Beckett et al. 2015; Hughes a Thomas, 2016). Gall cyrff eraill fel Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) gyfeirio achosion hefyd.

Efallai nad yw'r bobl ifanc yn meddwl amdanynt eu hunain fel dioddefwyr, gan gredu eu bod mewn cariad (Pearce, 2009). Mae hyn yn golygu nad ydynt yn meddwl bod angen cysylltu â'r heddlu o bosib.

Mae parodrwydd plant a phobl ifanc i gysylltu â'r heddlu hefyd yn gysylltiedig â'r canlynol:

- profiadau blaenorol o'r heddlu;
- a ydynt eisiau cysylltu â'r heddlu;
- eu hyder yng ngallu'r heddlu i'w gwneud yn ddiogel;
- ofn y byddai gwneud hynny'n gallu arwain at ganlyniadau negyddol iddyn nhw neu i'w teulu;
- teimlo eu bod ar fai;
- ofn na fydd neb yn eu credu; ac
- ofn cael eu beirniadu (Y Grŵp Seneddol Amlbleidiol, 2014; Allnock a Miller, 2013; Beckett et al. 2015).

Mae dangos eich bod yn ymwybodol o'r pryderon hyn yn un ffordd o gychwyn sgwrs ac o feithrin ymddiriedaeth gyda pherson ifanc.

Mae pobl ifanc yn tueddu i gredu'n gyffredinol nad yw'r heddlu'n trin plant a phobl ifanc yn deg (Beckett et al. 2015). Mae hyn yn arbennig o wir i bobl ifanc: sydd wedi bod mewn gofal neu sydd mewn gofal ar hyn o bryd; sy'n dod o gymuned leiafrifol; neu sydd ag anabledd (Y Grŵp Seneddol Amlbleidiol, 2014; Beckett a Warrington, 2015; Horvath et al. 2014; Miller a Brown, 2014). Felly gallai pobl ifanc ymddangos yn amharod i gydweithredu, neu'n ymosodol hyd yn oed, pan fydd yr heddlu'n mynd atynt neu pan fyddant yn siarad â'r heddlu (Coy, 2009; Beckett a Warrington, 2015; Hickie, 2016; Leon a Raws, 2016).

Ceir llawer o enghreifftiau lle mae pobl ifanc yn dweud eu bod wedi teimlo diffyg parch a sensitifrwydd y tro cyntaf iddynt ddod i gysylltiad â'r heddlu.

**“Fe wnaeth fy mhrofiad i wneud i mi deimlo'n ofnadwy... dwi'n teimlo fy mod i'n methu mynd at yr heddlu ddim mwy achos yr unig beth fyddan nhw'n ei wneud fydd chwerthin ar fy mhen; fe fydda i'n cael fy meirniadu ac yn cael fy mrifo go iawn.”<sup>1</sup>**

Er mwyn rhoi sylw i hyn, gall swyddogion yr heddlu weithio i greu perthynas seiliedig ar ofal a pharch, y sylfeini ar gyfer sefydlu ymddiriedaeth (Bartlett, 2016; Coy, 2009, 2016; Firmin, 2016; Sidebotham et al. 2016; Shuker, 2013).

Mae pobl ifanc yn gwybod pan maent yn cael eu trin gyda pharch a phan mae rhywun yn gwrando arnynt yn ofalus. Maent yn ymateb i weithwyr proffesiynol sy'n llawn gwybodaeth, yn gyfeillgar, yn hawdd siarad â nhw, yn garedig, yn sensitif, yn llawn gofal ac yn cadw eu haddewidion (Hughes a Thomas, 2016; Beckett et al. 2015; Cossar et al. 2013; Firmin, 2016; Gilligan 2016). Dyma sut gall yr heddlu wneud hyn:

- cynnig i'r person ifanc siarad â phlismon neu blismones;
- sicrhau bod yr un swyddog ar gael dros gyfnod o amser;
- rhoi cynnig i oedolyn y mae'r person ifanc yn ymddiried ynddo fod yn bresennol oni bai ei bod yn well ganddo gael ei weld yn breifat;
- adnabod a chydabod teimladau'r person ifanc;
- cyfathrebu mewn ffordd anfeirniadol a chymryd gofal i beidio â dangos arwyddion o sioc/anesmwythdra neu o fod ar frys (e.e. edrych ar y cloc) yn anfwriadol;
- gofyn i'r person ifanc a yw'n teimlo'n ddiogel, ac os nad ydyw, beth yw ei ofnau a'i pryderon;
- dweud pa gamau y gellir eu cymryd i roi sylw i'w pryderon;
- rhoi ystyriaeth briodol i gyfrinachedd, gan fod yn onest am gyfyngiadau; a
- bod yn ymwybodol y gall gwisgo iwniform/cario offer heddlu ymddangos yn fygythiol i bobl ifanc, a dangos i bawb bod problem o bosib.

(Bartlett, 2016; Beckett et al. 2015; Cossar et al. 2013; Drew, 2016; Gilligan, 2016; Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, 2015, 2016; Myers a Carmi, 2016).

<sup>1</sup> Person ifanc C; Beckett a Warrington, 2015

Gallai rhwystrau eraill rhag datgelu gynnwys syniadau am wrywdod (beth mae'n ei olygu i fod yn fachgen neu'n ddyn ifanc), cadw at y cod 'anrhydedd' a throseddau blaenorol (Beckett et al. 2015; Brayley et al. 2014; Sharp, 2015).

## Tarfu ar droseddwyr

Mae holl dystiolaeth yr ymchwil hyd yma yn dangos bod y mwyafrif o droseddwyr yn ddynion; lleiafrif sy'n fenywod. Gall oedolion a/neu gyfoedion gamfanteisio ar bobl ifanc. Gellir sicrhau nad yw drwgweithredwyr yn rhan o fywydau plant a phobl ifanc benodol mewn gwahanol ffyrdd (Nelson, 2016).

Mae modd cynllunio gweithgareddau tarfu ar sail y canlynol: 'proffiliau problemus' wedi'u creu gan ddadansoddwyr yr heddlu; cysylltu gwybodaeth ar draws asiantaethau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc (er enghraifft, clinigau iechyd rhyw, cartrefi gofal preswyl, grwpiau ieuencid ac ysgolion); a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i adnabod rhwydweithiau o ddiodefwrwr a chamdrinwyr (Berelowitz et al. 2013). Mae'r heddlu'n gallu defnyddio amrywiaeth o adnoddau ymyrryd i darfu ar achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys mesurau sifil os nad oes digon o dystiolaeth ar gyfer erlyniad troseddol [appendix in new statutory guidance]. Gall pobl ifanc gael eu symud o amgylch gwahanol lefydd yn y DU drwy fasnachu mewnol (Brayley a Cockbain, 2014). Felly mae'n bosib y bydd canllawiau ar sut i ymateb i fasnachu drwy'r Mekanwaith Cyfeirio Cenedlaethol hefyd yn berthnasol [[hyperddolen at NRM, canllawiau ar fasnachu pobl](#)].

Dylai tarfu gynnwys ystyried y cyd-destunau sy'n galluogi camfanteiswyr i weithredu. Gall gweithgareddau plismona mwy diogel yn y gymdogaeth gynnwys gweithio gyda gwasanaethau brys eraill, wardeiniaid parciau'r awdurdod lleol a glanhawyr stryd, yn ogystal â gyrwyr tacsï, gwestai, siopau bwyd cyflym, canolfannau siopa, staff drws a phorthorion yn yr economi nos (Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, 2016; D'Arcy a Thomas, 2016; Firmin, 2016). Y bwriad yma yw gwahodd y bobl hyn i fod yn 'llygaid a chlustiau' lleol, i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith cymunedol gwarchodol fel Operation Makesafe [[dolen yma](#)] (Nelson, 2016; Firmin, 2016).

## Ymchwilio i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant

Mae pobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol yn debygol o fod wedi cael profiad o sawl math o gamdriniaeth (emosiynol, seicolegol, rhywiol a chorfforol yn aml iawn) ac o golli ffydd mewn pobl, gan ei gwneud yn eithriadol o anodd iddynt siarad am yr hyn sy'n digwydd. Efallai fod hyn yn rhannol oherwydd eu bod yn ofni'r canlyniadau, teyrngarwch at y camfanteiswyr neu'r ofn na fydd neb yn eu credu a/neu y byddant yn cael eu beio (Beckett a Warrington, 2015; Gilligan, 2016; Hughes a Thomas, 2016). Mae teimlo pryder, euogrwydd a chywilydd yn elfennau grymus sy'n rhwystro pobl ifanc rhag siarad.

Os yw plentyn neu berson ifanc yn amharod i fod yn dyst, bydd camau tarfu ac erlyn lle nad oes dioddefwr yn elwa o wybodaeth leol werthfawr, yn ogystal â chyfweliadau ar ôl dychwelyd adref a gwybodaeth gan rieni, aelodau'r teulu, ffrindiau, gofalwyr ac asiantaethau eraill sydd â chysylltiad â'r plentyn. Gallai hyn gynnwys: enwau – gan gynnwys llysenwau, cyfeiriadau, manau lle mae hyn yn digwydd, rhifau ffonau symudol, rhifau ceir a gwybodaeth am rôl busnesau lleol (Hughes a Thomas, 2016; Drew, 2016; Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, 2016; Myers a Carmi, 2016; Nelson, 2016; Palmer a Jenkins, 2014; Pona, 2016). Mae gwerthfawrogi'r wybodaeth a roddir

gan bobl ifanc a chydabod pa mor anodd ydyw iddynt adrodd eu stori hefyd yn datblygu parch a gofal. Gan ystyried yr amser y gall gymryd i achos fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, mae'n bwysig bod yr heddlu'n deall canllawiau Gwasanaeth Eryl y Goron ar fynediad at gwrsela cyn treial [\[dolen yma\]](#)(Beckett a Warrington, 2015).

Gall ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol fod yn gadarnhaol ac yn negyddol i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol (Hickle, 2016). Er enghraifft, gall prosesau ymchwilio beri gofid a chreu anawsterau mewn perthnasoedd gyda theulu a ffrindiau ac ym myd addysg. Efallai fod pobl ifanc yn poeni am eu diogelwch corfforol ac emosiynol (Beckett a Warrington, 2015). Rhaid rhoi sylw i risgiau posib i'r plentyn, a monitro'r risgiau hyn (Bartlett, 2016). I wneud y sefyllfa'n fwy cadarnhaol, dylech gynnig gwybodaeth glir am eu hawliau; esboniwch beth sy'n mynd i ddigwydd; a rhowch gyfle pryd bynnag y gallwch chi i bobl ifanc gael dewis a rheolaeth (Allnock, 2015; Beckett et al. 2015; Beckett a Warrington, 2015; Cossar et al. 2013).

**“Mae ymchwiliadau ac ati yn gwneud i ni deimlo nad oes gennym reolaeth dros bethau, ac rydym yn ymateb yn emosiynol i hynny drwy gerdded i ffwrdd gan ein bod wedi teimlo fel yna o'r blaen, a doedden ni ddim yn ei hoffi”<sup>2</sup>**

Bydd cydweithio â Gwasanaeth Eryl y Goron yn gynnar i ddatblygu'r achos yn arwain at benderfyniadau cyflymach am gyhuddiadau ac yn lleihau pryder a thawedogrwydd y bobl ifanc wrth ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol (Beckett a Warrington, 2015).

## Gweithio gyda gwasanaethau eraill

**“Cefais brofiad da gyda'r heddlu, fe wnaethon nhw helpu llawer iawn arna i a fyddwn i ddim wedi gallu gofyn am brofiad gwell...fe wnaethon nhw fy helpu i, a fy rhoi mewn cysylltiad â gweithiwr prosiect arbenigol yn y sector gwirfoddol, felly roeddwn i'n cael cefnogaeth. Roedden nhw'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am bopeth oedd yn digwydd.”<sup>3</sup>**

Mae camfanteisio rhywiol yn broses, ac mae galluogi pobl ifanc i ddod o hyd i ffordd allan yn debyg i gefnogi unigolion sydd wedi dioddef trais domestig. Dim ond cymorth dwys fydd yn rhoi i bobl ifanc yr ymdeimlad o ddiogelwch sydd ei angen arnynt i wrthbwysu 'tynfa' camfanteiswyr (Coy, 2009; Gilligan, 2016; Shuker, 2013). Mae mynd ati'n rhagweithiol i roi plant a phobl ifanc mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth arbenigol, fel y mae'r dyfyniad uchod yn ei nodi, yn hanfodol (Beckett et al. 2015; Cossar et al. 2013; Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, 2015, 2016; Myers a Carmi, 2016).

Mae gwaith aml-asiantaeth effeithiol (er enghraifft, drwy gyfarfodydd Plant sydd ar Goll a Chamfanteisio ar Blant a Chanolfannau Diogelu Aml-asiantaeth) yn helpu'r heddlu i wneud yn siŵr bod anghenion cymorth pobl ifanc yn cael eu diwallu. Yn ogystal â gwella canlyniadau i bobl ifanc, mae hyn hefyd yn gwella canlyniadau ar gyfer cyfiawnder troseddol (Allnock, 2015; Beckett a Warrington, 2015; Goddard et al., 2015; Llywodraeth Ei Mawrhydi, 2015; Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2011).

Nid yw pobl yn sylweddoli'n aml iawn y gall drwgweithredwyr fygwth aelodau'r teulu hefyd ac ymosod a chodi ofn arnynt (Gibbons, 2014). Gall gweithwyr proffesiynol hefyd gamgymryd bod

<sup>2</sup> Dyfynnir yn Drew, 2016

<sup>3</sup> Merch 15 oed, dyfynnir yn Beckett et al. 2015

rhieni'n fodlon neu'n gallu amddiffyn eu plant rhag camfanteisio (Smeaton, 2013). Felly mae cynnwys rhieni yn ymateb yr heddlu yn bwysig, ond dim ond os yw hynny'n ddiogel (D'Arcy et al, 2015; Gibbons, 2014), oherwydd mae'n bosib y bydd rhai rhieni'n rhan o'r camfanteisio neu'r cam-drin (Itzin, 2001). Yn ogystal, efallai y bydd rhai pobl ifanc sy'n dioddef yn sgil camfanteisio rhywiol yn delio â chyd-destun teuluol a chymunedol ar yr un pryd, a gallai'r ffaith bod rhywun yn gwybod am gamdriniaeth arwain at risg o fathau eraill o niwed, gan gynnwys priodas dan orfod a thrais ar sail 'anrhydedd' (Sharp-Jeffs, 2016). Dylid edrych ar hyn, gan gyfeirio at arweiniad statudol ar briodasau dan orfod, a thrafod y mater â sefydliad arbenigol.

## Atal camfanteisio'n rhywiol ar blant a chanfod achosion yn gynnar

Mae mwy o gam-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd na'r hyn a gofnodir yn ystadegau swyddogol yr heddlu, a hynny oherwydd lefelau isel o ddatgelu a cholli cyfleoedd i ganfod achosion yn gynnar (Beckett a Warrington, 2015). Dylai'r heddlu gymryd bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem genedlaethol a mynd ati'n rhagweithiol ac yn ddeallus i adnabod dioddefwyr a drwgweithredwyr ac atal camdriniaeth yn eu hardal leol ac ar draws ffiniau heddluoedd (Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, 2016; Myers a Carmi, 2016).

Mae pob cyfle i ryngweithio â phlentyn neu berson ifanc yn gyfle i ymgysylltu, i wrando, i siarad ac i gasglu gwybodaeth, a gallai hynny fod yn hanfodol ar gyfer ymyrryd yn gynnar (Waddell a Molloy, 2015). Gall rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau partner helpu i weld beth sy'n digwydd ac i wneud yn siŵr bod cymorth priodol yn cael ei gynnig. Gall hyn wella'r canlyniadau i bobl ifanc yn fawr iawn, a'u hatal rhag cael eu caethiwo (ymhellach) (Waddell a Molloy, 2015). Fodd bynnag, nid yw rhannu gwybodaeth ynddo'i hun yn ymyriad, ac mae'n rhaid cydbwysu hyn â phryder am natur benderfynol y person ifanc – yn y tymor byr o leiaf.

Gall gweithgareddau atal gynnwys codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, cydsynio a pherthnasoedd nad ydynt yn gamdriniol, drwy gyfrwng rhaglenni mewn ysgolion a gyflwynir gan arbenigwyr. Bydd camau o'r fath yn galluogi plant i sylwi ar y pethau y gall camfanteiswyr eu gwneud, gan gynnwys gofyn am luniau o natur rywiol [\[canllawiau ar secstio\]](#) (Coleg Plismona, 2016). Mae'r gwaith y mae'r heddlu'n ei wneud mewn ysgolion yn helpu i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr heddlu a phlant fel bod ganddynt fwy o hyder i rhoi gwybod am bryderon.

## Cyfeiriadau

Allnock, D. (2015) *What do we know about child sexual abuse and policing in England and Wales? Evidence briefing for the national policing lead for child protection and abuse investigation* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Allnock, D. a Miller, P (2013) *No-one noticed, no-one heard: a study of disclosures of childhood abuse*. Llundain. NSPCC

Y Grŵp Seneddol Amlbleidiol ar gyfer Plant (2014) *'It's all about trust: building good relationships between children and the police'* Adroddiad yr Ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Grŵp 2013-2014. London. Y Grŵp Seneddol Amlbleidiol ar gyfer Plant

Bartlett, G. (2016) *Triennial analysis of serious case reviews (2011-2014): practice briefing for the police and criminal justice agencies* Totnes: Research in Practice

Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland* Barnardo's: Belfast

Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: experiences of criminal justice for children and young people affected by sexual exploitation as victims and witnesses* Luton: Prifysgol Swydd Bedford

Beckett, H. Warrington, C., Ackerley, E. a Allnock, D. (2015) *Children and young people's perspectives on the police's role in safeguarding: a report for Her Majesty's Inspectorate of Constabularies* Bedford: Prifysgol Swydd Bedford

Beckett, H., Walker, J. a Allnock, D. (2016) *CSE: Perpetration, disruption and prosecution* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G. ac Gulyurtlu, S. (2012) *"I thought I was the only one. The only one in the world" interim report* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Berelowitz, S, Clifton, J, Firmin, C, Gulyurtlu, S ac Edwards, C (2013) *"If only someone had listened": Office of the Children's Commissioner Inquiry into child sexual exploitation in gangs and groups. Final report*. Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Brayley, H. a Cockbain, E. (2014) *British Children Can Be Trafficked Too: Towards an Inclusive Definition of Internal Child Sex Trafficking* *Child Abuse Review* 23: 171–184

Brayley, H.; Cockbain, E. a Gibson, K. (2014) *Rapid evidence assessment – the sexual exploitation of boys and young men* Barkingside: Coleg Prifysgol Llundain

Brown, S., Brady, G., Franklin, A., Bradley, L., Kerrigan, N. a Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability* Coventry: Prifysgol Coventry

Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (2011) *Scoping Report on Missing and Abducted Children* Llundain: Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein

Coleg Plismona (2016) *Briefing note: police action in response to youth produced sexual imagery ('sexting')* Llundain: Coleg Plismona

Cossar, J., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Biggart, L. a Sharpe, D. (2013) *'It takes a lot*



*to build trust': Recognition and telling: Developing earlier routes to help for children and young people* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant

Coy, M. (2009) *'Moved Around Like Bags of Rubbish Nobody Wants' How Multiple Placement Moves Can Make Young Women Vulnerable to Sexual Exploitation* *Child Abuse Review* 18(4): 254-266

Coy, M. (2016) *'We don't get this at school: The Safe Choices Reaching Communities Project final evaluation report* Llundain: CWASU

D'Arcy, K. Dhaliwal, S. Thomas, R. with Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *Families and Communities Against Child Sexual Exploitation (FCASE) Final Evaluation Report* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

D'Arcy, K. ac Thomas, R. (2016) *Nightwatch: CSE in Plain Sight – final evaluation report* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Drew, J. (2016) *An independent review of South Yorkshire Police's handling of child sexual exploitation*, Adolygiad Drew 1997-2016

Firmin, C. (2016) *A strategic needs assessment: interim report* Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Fox, C. (2016) *'It's not on the radar' The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* Barkingside: Barnardo's

Fox, C. a Kalkan, G. (2016) *Barnardo's Survey on Online Grooming* Barkingside: Barnardo's

Franklin, A., Raws, P. ac Smeaton, E. (2015) *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or at risk of, sexual exploitation* Barkingside: Barnardo's

Ghani, N. (2016) *'Now I know it was wrong': Report of the parliamentary inquiry into support and sanctions for children who display harmful sexual behaviour* Barkingside: Barnardo's

Gibbons, G (2014) *The Relational Safeguarding model: best practice in working with families affected by child sexual exploitation* Leeds: Parents Against Child Exploitation

Gilligan, P. (2016) *Turning it around: what do young women say helps them to move on from child sexual exploitation?* *Child Abuse Review* 25(2): 115-127

Goddard, A., Harewood, E., ac Brennan, L. (2015) *Review of pathway following sexual assault for children and young people in London.* Llundain: The Havens, Ysbyty Kings College

Gohir, S. (2013) *Unheard voices: sexual exploitation of Asian girls and young women* Llundain: Muslim Women's Network UK

Harris, J. a Robinson, B. (2007) *Tipping the Iceberg: A pan Sussex study of young people at risk of sexual exploitation and trafficking* Barkingside: Barnardo's

Hickle, K. (2016) *A Trauma informed approach, child sexual exploitation and Related Vulnerabilities* Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol

Llywodraeth Ei Mawrhydi (2015) *Working Together to Safeguard Children* London: HMSO

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (2015) *In harm's way: the role of police in keeping children safe* Llundain: Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (2016) *Missing children: who cares? The police response to missing and absent children* Llundain: Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
- Horvath, M, Davidson, J, Grove-Hills, J, Gekoski, A a Choak, C (2014) *It's a lonely journey. A rapid evidence assessment on intra-familial child sexual abuse* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant
- Hughes, C. ac Thomas, M. (2016) ) *Gelli ymddiried ynof i: Pobl ifanc yn mynd ar goll ac sy'n cael, neu mewn perygl o gael, eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yng Ngogledd Cymru Caerdydd: Barnardo's Cymru*
- Itzin, C. (2001) *Incest, Paedophilia, Pornography a Prostitution: Making Familial Males More Visible as the Abusers* *Child Abuse Review* 10: 35–48
- Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. ac Warrington, C. (2011), *What's Going on to Safeguard Children a Young People from Sexual Exploitation? How Local Partnerships Respond to Child Sexual Exploitation* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Klatt, T., Cavner, D. a Egan, V. (2014) *Rationalising predictors of child sexual exploitation and sex trading* *Child Abuse Neglect* 38(2): 252-260
- Leon, L. a Raws, P. (2016) *Boys don't cry: improving identification a disclosure of sexual exploitation among boys and young men trafficked to the UK* Llundain: Children's Society
- Melrose, M. (2013) *Young People a Sexual Exploitation: A Critical Discourse Analysis* in Melrose, M. a Pearce, J. (eds.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp.9-22 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Miller, D. a Brown, J. (2014) *'We have the right to be safe': Protecting disabled children from abuse* Llundain: NSPCC
- Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2011) *Achieving best evidence in criminal proceedings. Guidance on interviewing victims and witnesses, and guidance on using special measures* Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- Myers, J. a Carmi, E. (2016) *The Brooke serious case review into child sexual exploitation: identifying the strengths and gaps in the multi-agency responses to child sexual exploitation in order to learn and improve* Bryste: Bwrdd Diogelu Plant Bryste
- Nelson, S. (2016) *Tackling Child Sexual Abuse: Radical Approaches to Prevention, Protection and Support* Bryste: Policy Press
- Palmer, E. a Jenkins, P. (2014) *Parents as Partners in Safeguarding Children: an evaluation of Pace's work in four Lancashire Child Sexual Exploitation Teams* Leeds: Parents against child sexual exploitation (Pace)
- Pearce, J. (2009) *Young people and sexual exploitation: It isn't hidden, you just aren't looking* Llundain: Routledge Falmer
- Pona, I. (2016) *Safeguarding children and young people who go missing in London* London Llundain: The Children's Society
- Sharp, N. (2015) *Keeping it from the Community Community Safety – Special Edition on Child Sexual Exploitation, Sexual Violence and Community Safety* 14(1): 56-66

- Sharp-Jeffs, N. (2016) *A lot going on: the links between going missing, forced marriage and child sexual exploitation* exploitation Luton: Prifysgol Swydd Bedford, Y Ganolfan Ryngwladol (traethawd ymchwil heb ei gyhoeddi)
- Shuker, L. (2013) *Evaluation of Barnardo's Safe Accommodation Project for Sexually Exploited and Trafficked Young People* Luton: Prifysgol Swydd Bedford
- Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Dodsworth, J., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. a Sorensen, P. (2016) *Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014: final report* Llundain: Yr Adran Addysg
- Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation* Barkingside: Barnardo's and Paradigm Research
- Waddell, S. a Molloy, D. (2015) *Early intervention: a guide for frontline police officers and PCSOs: a Home Office Crime Prevention Panel project* Llundain: Early Intervention Foundation
- Ward, J. a Patel, N. (2006) Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people *Child Abuse Review* 15(5): 341-50
- Whittle, H. C., Hamilton-Giachritsis, C., Beech, A., & Collings, G. (2013) A Review of young people's vulnerabilities to online grooming *Aggression and Violent Behavior* 18: 135-146

## Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant – hefyd ar gael

- Comisiynu gwasanaethau'r heddlu'n strategol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion
- Gweithio amlasiantaethol

## Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

[www.csacentre.org.uk](http://www.csacentre.org.uk)

©lonawr 2017